

# Ymateb i Ymgynghoriad

## Ymgynghoriad Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ynghylch:

### Gweithredu Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr Fflworineiddiedig newydd yr Undeb Ewropeaidd

Mae cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r cyfle i wneud sylwadau ynghylch drafft Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr Fflworineiddiedig y Deyrnas Unedig 2015.

#### Rheoliadau Cartref

##### C1: Ydych chi'n fodlon â'r argymhellion ynghylch cyfyngu'r grymoedd mynediad?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon a'r cyfyngiad ar y gweithiau y gellid mynd i eiddo o dan y grymoedd mynediad diwygiedig. Rydym yn fodlon, hefyd, â nifer y bobl a allent ddod gyda'r sawl a awdurdodwyd o dan y rheoliadau.

Teimlwn fod angen egluro bwriad y rheoliadau parthed ba bryd y mae angen gwarant gan ynad heddwch.

Mae gan awdurdodau gorfodi eraill na'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd rymoedd mynediad tan ddeddfwriaeth arall. Gallai Cyfoeth Naturiol Cymru, er enghraifft, archwilio safle, ynteu trwy wahoddiad ynteu trwy arfer grymoedd mynediad, megis rhan o'n dyletswyddau tan Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 (fel y'u diwygiwyd). Pe delai torri'r Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr Fflworineiddiedig i'r amlwg yn ystod archwiliad o'r fath, mae arnom angen rhagor o oleuni ar ba bryd y byddai angen gwarant oddi wrth ynad heddwch.

##### C2: A dybiwch chi fod y cydbwysedd arfaethedig rhwng troseddau drwgweithredol uniongyrchol a rhybuddion gorfodi yn addas ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth effeithio â Rheoliad yr Undeb Ewropeaidd?

Rydym yn fodlon â'r cydbwysedd rhwng rhybuddion gorfodi a throseddau drwgweithredol. Mae'r arddull arfaethedig yn unol ag egwyddorion gwell rheoleiddio.

##### C3: Oes gennych unrhyw sylwadau eraill parthed y Rheoliad drafft?

Nid oes gennym ddim rhagor o sylwadau ynghylch y Rheoliadau drafft.

#### Asesiad effaith ar fusnes

Ni fu rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru orfodi Rheoliadau 2009 ar unrhyw achlysur ers ei greu yn Ebrill 2013. Gan hynny, nid oes gennym unrhyw ddata ar gyfer goleuo'r asesiad effaith. Nid oes gennym unrhyw sylwadau eraill parthed yr asesiad effaith.

20.01.2015